



At:

Awdurdodau Lleol yng Nghymru
(At sylw Swyddogion Cyllid Myfyrwyr)
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
NUS Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch i Gymru

Ionawr 2013

Annwyl Gydweithiwr

CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2013/14:

RHEOLIADAU ADDYSG (CYMORTH I FYFYRWYR) (CYMRU) 2012

Daeth y Rheoliadau (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2012 fydd yn rheoli cymorth i fyfrwyr addysg uwch ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/14 i rym ar 4 Ionawr 2013.

Bydd copïau electronig o'r Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfrwyr) (Cymru) 2012 (Rhif 3097 (W313)) ar gael i'w lanlwytho o wefan OPSI ar <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/3097/contents/made>

Maent hefyd ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241689&ds=12/2012>

Dylai'r sefydliadau hynny sydd angen copïau papur o'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol ffonio, e-bostio neu ysgrifennu at y Llyfrfa (gweler y manylion cyswllt isod).

YMHOLIADAU



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr neu yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch, yn y lle cyntaf, â'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru – e-bost studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk

ARCHEBU COPIAU O'R RHEOLIADAU CYMORTH I FYFYRWYR

Mae'n bosib archebu'r Rheoliadau o'r Llyfrfa gan:

TSO Orders/ Post Cash Dept
PO Box 29
Norwich
NR3 1GN

Rhif ffôn: 0870 600 5522

E-bost: customer.services@tso.co.uk



Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2013/14: crynodeb o'r newidiadau

Pecyn cymorth sylfaenol i fyfyrwyr ar gyfer 2013/14

Yn amodol ar cymhwysra, bydd myfyrwyr llawn amser newydd sy'n byw yng Nghymru yn cael y pecyn canlynol o gymorth ar gyfer cyrsiau o fis Medi 2013:

- benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu heb brawf modd hyd at £3,575;
- grant ar gyfer ffioedd dysgu heb brawf modd i dalu'r gwahaniaeth rhwng uchafswm y benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu sydd ar gael a'r ffi dysgu a godir mewn gwirionedd gan brifysgol yn y DU (uchafswm grant o £5,425 os y codir ffi dysgu o £9,000);
- Grant Dysgu'r Cynulliad (grant cynhaliaeth), gyda phrawf modd o hyd at £5,161, yn dibynnu ar incwm y cartref ;
- benthyciad cynhaliaeth gyda phrawf modd (hyd at £3,987 os yn byw yng nghartref y rhieni, hyd at £5,150 os yn byw i ffwrdd o gartref y rhieni, a hyd at £7,215 os yn astudio yn Llundain) a,
- dileu benthyciad cynhaliaeth yn rhannol hyd at £1,500 ar ôl dechrau ad-dalu.

Noder nad oes diffiniad ar wahân o fyfyrwr cohort 2013 o fewn y Rheoliadau. Myfyrwr cohort 2012 (fel a ddiffinnir yn y Rheoliadau) yw myfyrwr cymwys newydd sy'n dechrau'r cwrs presennol ar neu wedi'r 1 Medi 2012, a bydd y darpariaethau perthnasol yn parhau i gael eu talu i fyfyrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2013.

Crynodeb o newidiadau technegol

Dysgwyr o Bell (Hawl parhaus i gymorth i ddysgwyr o bell sy'n symud y tu allan i Gymru yn ystod eu cwrs)

Ers blwyddyn academiaidd 2012/13 mae gan fyfyrwyr llawnamser sy'n dysgu o bell hawl i wneud cais am gymorth ar gyfer y ffioedd dysgu sy'n cyfateb â'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr llawnamser eraill:- sef grant a benthyciad ar gyfer ffioedd dysgu. Cafodd y rheoliadau eu diwygio i gadarnhau y bydd myfyrwyr yn parhau i gael eu hariannu gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os bydd myfyrwr sy'n dysgu o bell yn symud y tu allan i Gymru wedi diwrnod cyntaf eu cwrs. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn Lloegr wedi talu'r pwyth yn ôl, sy'n golygu y bydd Cyllid Myfyrwyr Lloegr yn parhau i ddelio â myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn Lloegr, ac sy'n symud i Gymru yn ystod eu cwrs, am weddill y cwrs hwnnw.

Cyrff y GIG – Newid yn nheitl cyrff fy GIG ble y caiff myfyrwyr fynd ar leoliadau gwaith

O ganlyniad i ddiwygiadau Llywodraeth y DU i'r GIG yn Lloegr (drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012), mae Bwrdd Comisiynu'r GIG a'r Grwpiau Comisiynu Clinigol, Canolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal wedi'u hychwanegu at y rhestr o gyflogwyr/cyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau sy'n derbyn myfyrwyr am 'wasanaeth di-dâl'. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i dderbyn cymorth tra eu bod yn gwasanaethu'n ddi-dâl yn y cyrff GIG newydd. Bydd y Bwrdd Comisiynu a'r Grwpiau Comisiynu Clinigol yn disodli'r Awdurdodau Iechyd Strategol a'r Ymddiriedolaethau Gofal Cynradd yn Lloegr, ond ar y cychwyn bydd yn bosib i'r ddau fath o sefydliad fodoli ar yr un pryd.



Cymorth rhan-amser

Ni fydd newidiadau i'r cymorth rhan-amser yn 2013/14 i fyfyrwyr rhan-amser o Gymru.



**BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

E-mail/ E-bost: studentfinancedivision.gsi.gov.uk